# Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 8 Chwefror 2024 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A S Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Amanda Carr, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
Jennifer Davies, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Nerys Evans, Cyngor Abertawe
Daniel Jones, Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
Keith Lloyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Allison Lowe, Cyngor Abertawe
Huwel Manley, Cyfoeth Naturiol Cymru
Tracey McNulty, Cyngor Abertawe
Amy Richmond-Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Jane Richmond, Cyngor Abertawe
Richard Rowlands, Cyngor Abertawe
Karen Stapleton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Joanne Stephens, Swansea and Neath Port Talbot Probation Delivery Unit
Gwynfor Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Chris Truscott, Heddlu De Cymru
Mark Wade, Grŵp Iechyd a Thai
Hannah Wharf, Llywodraeth Cymru
Ness Young, Cyngor Abertawe

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Deanne Martin, Carchar a Gwasanaeth Prawf EM
Keith Reid, Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

## 16 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 17 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2023 fel cofnod cywir.

## 18 Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 19 Diweddariad ar gynllun Gweithredu BGC Ch3 2023/24 Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarterol y BGC.

Cyflwynodd Ness Young, Cyngor Abertawe adroddiad a oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r camau gweithredu a'r cerrig milltir cysylltiedig a gynhwysir yng Nghynllun Gweithredu Lles y BGC ar gyfer 2023/24 yn chwarter 3 2023/24 a amlinellwyd yn Atodiad A.

Rhoddodd yr Arweinwyr Strategol ddiweddariad llafar ar gyfer pob un o'r 8 cam.

**Penderfynwyd** bydd y Bwrdd yn nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod chwarter 3 2023-24 a chytunwyd i dderbyn adroddiad diweddaru ar y cynllun gweithredu a'i gynnydd fel eitem sefydlog yn ystod cyfarfodydd y BGC yn y dyfodol.

## 20 Rhaglen Llunio Lleoedd yng Nghymru.

Rhoddodd Jennifer Davies, Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad llafar ar y Rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Lles yng Nghymru.

Esboniodd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi llwyddo i sicrhau tair blynedd o gyllid gan raglen grantiau Llunio Lleoedd y Sefydliad Iechyd mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru a'u timau. Roedd Llunio Lleoedd yn canolbwyntio ar lywodraethau lleol a phartneriaid lleol yn cymryd camau gweithredu ar draws y system ar benderfynyddion iechyd ehangach a rhaglenni ac roedd eisoes wedi'i sefydlu yn Lloegr a'r Alban.

Dywedodd fod dau brif ofyniad ar hyn o bryd:

- Cofrestru diddordeb mewn cymryd rhan (fel BGC) a derbyn y gefnogaeth a gynigir drwy'r rhaglen genedlaethol hon i ddatblygu ein galluoedd o ran arwain systemau i gefnogi lles ein poblogaeth;
- Ystyried pa themâu/meysydd y byddem yn elwa fwyaf o weithio trwyddynt/datblygu gan ddefnyddio'r cymorth hwn i'r rhaglen – gallai'r rhain fod y rhai a nodir neu ddewisiadau amgen.

**Penderfynwyd** anfon rhagor o fanylion am y cynllun at bartneriaid drwy e-bost i'w hystyried ymhellach.

## 21 Llythyr oddi wrth Bwyllgor y Rhaglen Graffu.

Cyflwynwyd y llythyr diweddaraf gan Gadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu er gwybodaeth.

Nodwyd bod y llythyr yn llawer mwy cadarnhaol oherwydd y gwaith a wnaed gan y partneriaid ers i'r llythyr blaenorol gael ei dderbyn.

## 22 Rhaglen Waith y Dyfodol:

Nodwyd cynllun gwaith ar gyfer y dyfodol yn amodol ar ddileu Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynllunio Ardal gan fod hyn bellach yn dod o dan drefniadau llywodraethu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.11 pm

**Cadeirydd**